**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad:** **Dydd Iau 29 Ionawr 2004**
**Amser:** **9:15am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Cofrestr Buddiannau'r Aelodau – Ffurflen ddiwygiedig**

**Cyflwyniad**

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried a allai'r ffurflen gyfredol ar gyfer y gofrestr buddiannau gael ei hailwampio er mwyn bod o gymorth i'r Aelodau wrth ei llenwi. Teimlwyd gallai fod yna le i gynnwys rhai canllawiau elfennol a nodi'r prif ofynion yn y ffurflen.

**Y Ffurflen Ddiwygiedig**

2. Ynghlwm, yn Atodiad 1, mae ffurflen arfaethedig newydd i'r Pwyllgor ei hystyried. (Mae'r ffurflen bresennol wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 er cymhariaeth.) Mae'r ffurflen ddiwygiedig:

   i. yn cynnwys canllawiau sylfaenol ar gyfer pob categori o ddiddordeb, ac yn amlinellu'r prif ofynion;
   ii. yn nodi, ar gyfer pob categori o ddiddordeb, yr wybodaeth benodol sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog neu yn y canllawiau;
   iii. yn nodi'n glir yr union ddyddiad y daeth y newid i fod, p'un ai y bo'r cofrestriad ar gyfer yr Aelod, ei gymar/ei chymar neu blentyn sy'n ddibynnol arno/arni a ph'un ai a ydyw'n gofnod newydd neu'n diwygio cofnod sydd eisoes yn bod.
   iv. yn caniatáu lle ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol y bydd yr Aelod yn ei hystyried yn berthnasol.

**Trafodaeth**

3. Er y credwn fod y ffurflen ddiwygiedig yn welliant ar y ffurflen bresennol, ffurflen elfennol iawn sydd fe ellir dadlau yn aneglur, mae iddi dwy anfantais. Mae'r cyntaf yn gosmetig i raddau sef ei bod gryn dipyn yn hirach (12 tudalen) na'r ffurflen 2 dudalen bresennol. Fodd bynnag, dim ond yr adrannau hynny sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau y bydd angen i'r Aelodau eu llenwi a dylai natur fwy cynhwysfawr y ffurflen eu helpu i wneud hynny.

4. Yr ail anfantais, a'r un fwyaf arwyddocaol, yw cynnwys y canllawiau a geir ar y ffurflen. Er eu bod yn gywir, nid ydynt yn gyflawn a gallai hyn fod yn gamarweiniol mewn rhai amgylchiadau. Yn hyn o beth, ac wrth ystyried yr anhawster o ddylunio ffurflen, sy'n darparu canllawiau cynhwysfawr yn llawn ac yn hydrin ei hyd a chlir ei osodiad, credwn hwyrach y byddai'n well cadw at y ffurflen bresennol. Serch hynny, byddwn yn croesawu sylwadau Aelodau'r Pwyllgor ar y mater hwn

5. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol, o dan Reol Sefydlog 4.3, mai'r Llywydd sy'n gyfrifol am bennu'r hyn sydd yn y ffurflen Cofrestr Buddiannau. Byddai angen iddo gymeradwyo'n ffurfiol unrhyw newid i'r ffurflen.

**Argymhelliad**

6. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cyngor hwn ac ystyried a ydyw am argymell newid y ffurflen ar gyfer y gofrestr buddiannau yn unol â'r drafft sydd yn Atodiad 1.

**Ysgrifenyddiaeth**
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad** **Ionawr 2004**